



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner



Heddlu Police
**DYFED
POWYS**

19 Chwefror 2026

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

Panel Craffu
Annibynnol y Ddalfa:
Unigolion a gedwir yn
y ddalfa o gefndir
ethnig leiafrifol

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Crynodeb o’r canfyddiadau.....	4
Sylwadau’r panel.....	6
Atodiad – Canfyddiadau’r adolygiad o’r cofnodion dalfa	13
Demograffeg	13
Dalfeydd.....	15
Amser cyrraedd y ddalfa	15
Darpariaethau yn y ddalfa	17
Unigolion benywaidd yn y ddalfa	19
Hawliau a hawlogaethau.....	21
Lefel arsylwi.....	24
Gwasanaethau cymorth.....	25
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.....	26
Dillad risg arbennig / ystafelloedd gwrth-rwygo	27
Defnyddio grym	28
Noeth-chwiliad.....	29
Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd.....	30
Plant yn y ddalfa	31
Coch Melyn Gwyrdd	32

Cyflwyniad

Mae tarddiad, diben a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa (CISP) i'w gweld ar ein gwefan o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: [Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys](#).

Ym mis Chwefror 2026, canolbwyntiodd CISP ar unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol. Wrth baratoi ar gyfer y gweithgaredd craffu hwn, atgoffwyd y panel o *Gynodeb o Ganfyddiadau* adroddiad y llynedd, y gellir ei weld [yma](#).

Ym mis Tachwedd 2024, nododd Gwasanaeth Eryl y Goron fod pryder cenedlaethol sydd wedi'i ddogfennu'n dda ledled y DU bod rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y ddalfa, yn enwedig grwpiau ethnig leiafrifol a phlant o gefndiroedd lleiafrifol ([Cynllun Gweithredu Anghymesuredd Gwasanaeth Eryl y Goron 2024](#)). Yn ddiweddar, mae nifer o gyrff cenedlaethol wedi codi pryderon bod unigolion o gefndir ethnig leiafrifol yn cael eu gor-gynrychioli ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yn y ddalfa. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU – [Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i Blant 2021](#) – yn dangos tystiolaeth glir o anghymesuredd o ran ethnigrwydd mewn perthynas â phenderfyniadau ar remand a deilliannau dedfrydu ar gyfer plant, sy'n golygu bod plant o gefndir lleiafrifol yn fwy tebygol o gael eu remandio neu gael deilliannau llymach.

Ym mis Mehefin 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei [Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#), gan amlinellu bod yn rhaid i bob partner cyfiawnder troseddol wneud popeth o fewn eu gallu, yn unigol ac ar y cyd, i gael gwared ar unrhyw fath o hiliaeth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol.

I gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd yn 2024, sy'n nodi blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros y pedair blynedd nesaf o ran cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n cynnwys:

- a. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- b. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu
- c. Meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu

Deddfwriaeth sy'n diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach yw Deddf Cydraddoldeb 2010. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig hynny:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, neu darddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd neu gred
- rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol

Cyn adolygu cofnodion y ddalffa, gofynnwyd i CISP ystyried y canllawiau canlynol a gymerwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, yn benodol o'r 'Canllawiau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Wahaniaethu':

"Y prawf ar gyfer gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw 'a gafodd yr unigolyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig?' Mae 'llai ffafriol' yn awgrymu cymhariaeth. Yn yr un modd, y prawf ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol yw bod polisi, arfer neu weithdrefn yn rhoi pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig benodol dan 'anfantais benodol'."

Atgoffwyd CISP hefyd am y newidiadau mewn gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant yn y ddalffa gyda Heddlu Dyfed-Powys, a hefyd o ddiben rhestr wirio plentyn yn y ddalffa, y gellir ei gweld trwy ein hadroddiad blaenorol yma.

I weld y set o gwestiynau y gofynnwyd i'r panel eu hystyried, gallwch glicio [yma](#) neu eu gweld drwy ddefnyddio'r cod QR:



Crynodeb o'r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau'r panel:

Pwyntiau cadarnhaol:

Dim arwyddion o wahaniaethu

- O werthuso pob un o'r 19 o gofnodion y ddalffa, ni nododd CISP unrhyw bryderon uniongyrchol nac amlwg yn ymwneud ag unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalffa o gefndir ethnig leiafrifol yn cael ei drin yn llai ffafriol.
- Ni chofnodwyd unrhyw achosion o gofnodion coch (gofyniad i'r heddlu edrych ar gofnod dalffa penodol oherwydd pryderon a godwyd gan y panel) yn cael eu hadolygu gan CISP. Roedd 74% o'r cofnodion yn wyrdd a 26% yn felyn. Mae hyn yn dangos bod yr heddlu yn gwneud cynnydd o ran ei ymlyniad wrth weithdrefnau a llywodraethu'r ddalffa.

Cyfnod yn y ddalffa

- Mae cyfanswm yr amser yn y ddalffa yn gymharol ag adroddiad y llynedd o 16 awr, sef 16 awr a 36 munud. Mae hyn yn adlewyrchu'r cysondeb yn y ffordd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn trin ac yn ymdrin â charcharorion a gedwir yn y ddalffa o gefndir ethnig leiafrifol.

Lefel arsylwi

- Cadwyd at bob lefel arsylwi, sy'n uwch nag adroddiad y llynedd o 93% o ran cydymffurfedd. Nododd CISP fod pob achos o uwchraddio ac israddio yn cael eu monitro a'u bod yn gymesur.

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

- Gwnaeth CISP ddilysu bod pob unigolyn a gadwyd yn y ddalffa yr oedd angen iddynt weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gwneud hynny heb unrhyw oedi, sy'n welliant pellach o'i gymharu â'r llynedd.

Plentyn yn y ddalffa

- Un blentyn yn unig oedd yn y ddalffa a chawsant ei ryddhau cyn ei adolygiad chwe awr o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ac roedd rhestr wirio plentyn yn y ddalffa wedi'i chwblhau ochr yn ochr â Llais y Plentyn ac Eiliadau Cyraeddadwy.

Noeth-chwiliad

- Asesodd CISP bedwar allan o 19 o gofnodion unigolion a gadwyd yn y ddalffa yn dangos eu bod wedi bod yn destun noeth-chwiliad heb unrhyw bryderon na sylwadau gan y panel ynghylch hyn.

Defnyddio grym

- O'r 19 cofnod a adolygwyd, ni ddefnyddiwyd unrhyw rym yn erbyn unrhyw garcharor tra oedd yn y ddalffa. Mae hyn yn dangos bod staff y ddalffa yn delio ag unigolion a gedwir yn y ddalffa ag urddas a pharch, sy'n dynodi dulliau rhagorol i ddad-waethygu sefyllfaoedd.

Meysydd i'w gwella:

Blaenoriaethu Gwasanaethau Plant

- Ar gyfer y cofnod unigol o blentyn yn y ddalffa, nid oedd staff y ddalffa yn glir ynghylch pa sefydliad allanol oedd angen blaenoriaeth – Mewnfudo neu Wasanaethau Plant. Mae'r heddlu wedi penderfynu y dylai'r Gwasanaethau Plant fod wedi cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros sicrhau gofal y plentyn sy'n cael ei gadw yn y ddalffa yn hytrach na Mewnfudo, a dylent fod wedi cael gwybod yn gynharach yn ystod cyfnod yr unigolyn yn y ddalffa.

Cofnodi manylion demograffig

- Darganfu CISP un cofnod a oedd yn cofnodi ethnigrwydd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa yn anghywir. Yn dilyn yr adroddiad hwn, anfonwyd canllawiau at holl staff y ddalffa mewn perthynas â'r cwestiwn yn ymwneud ag ethnigrwydd hunanddiffiniedig, y mae'n rhaid gofyn amdano a'i gofnodi'n gywir yn ystod y broses gofrestru.

Crefydd

- Mae CISP wedi darganfod nad oedd tri chofnod wedi cofnodi enwad crefyddol unigolion a gadwyd yn y ddalffa.
- Nid yw'n glir a yw staff y ddalffa yn cynnig ac yn cofnodi'r opsiwn o ddarparu eitemau crefyddol i unigolion a gedwir yn y ddalffa. Nid yw'n glir chwaith a yw'r unigolyn a gadwyd yn y ddalffa wedi gwrthod yr opsiwn o eitemau crefyddol, er mwyn tryloywder.

Sylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Thema	Sylwadau	Ymateb yr heddlu
<p>Oedolyn priodol</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ar gyfer cofnod y ddalfa yr unig blentyn, cofnodwyd yr amser a gymerodd i gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf, sef 3 awr a 19 munud ar ôl iddo gyrraedd y ddalfa. Er bod y plentyn wedi cael ei gludo i leoliad diogel gyda'r gwasanaethau cymdeithasol wedyn, ac o ystyried bod cyfanswm cyfnod cadw'r plentyn yn 4 awr a 59 munud, a ydych chi'n ystyried bod hyn yn gymesur? 2. Mewn cofnod ar wahân, nodwyd nad oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn gallu darllen yn Saesneg ond ni chafodd oedolyn priodol. A allwch chi wirio a yw hyn yn gywir ac a ddylid bod wedi ystyried hyn? 	<ol style="list-style-type: none"> 1. <i>Adolygwyd cofnod y ddalfa ac, gan mai arestiad yn ymwneud â mewnfudo oedd hwn, mae camau gweithredu eraill y mae'n rhaid i'r ddalfa eu cwblhau nad yw aelod y panel o bosibl yn gwbl ymwybodol ohonynt. Mewnfudo sy'n gyfrifol am droseddau mewnfudo yn bennaf, nid yr heddlu. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddysgu y gellir ei gymryd o'r cofnod cadw hwn. Cyrhaeddodd y plentyn y ddalfa am 10.30am, ond nid awdurdodwyd ei gadw tan 1 awr a 18 munud yn ddiweddarach am 11.48am. Mae'r rheswm am hyn wedi'i ddogfennu ar gofnod y ddalfa, sef nad oedd y plentyn yn siarad fawr ddim o Saesneg a bod yn rhaid defnyddio gwasanaethau cyfieithu o bell ar gyfer y weithdrefn cofrestru. Yna mae cofnod cadw yn y ddalfa am 12.25pm yn tynnu sylw at y ffaith bod staff y ddalfa yn cynnal trafodaethau â'r Gwasanaethau Mewnfudo a'r Gwasanaethau Phlant. Felly, gwnaed y cyswllt cyntaf yn gynharach nag a gofnodwyd gan aelod y panel. Roedd cymhlethdodau yn ymwneud â'r carcharor hwn yr oedd angen i'r ddalfa eu datrys, yn bennaf pa sefydliad fyddai'n cael blaenoriaeth, oherwydd gan fod y carcharor yn blentyn, daeth yn gyfrifoldeb y Gwasanaethau Plant i fynychu a gofalu am y carcharor ac nid Mewnfudo. Y gwersi i'w dysgu o gofnod y ddalfa hwn yw bod y cynllun gofal cyntaf yn nodi nad oedd angen oedolyn priodol pan oedd mewn gwirionedd yn cynnal</i>

		<p><i>sgwrs â'r asiantaeth berthnasol ac, yn ail, bod yr amser a gofnodir ar gyfer rhoi gwybod i'r oedolyn priodol yr un amser â'r amser cyrraedd ac felly'n anghywir. Bydd adborth yn cael ei roi i swyddog y ddalfa.</i></p> <p><i>2. Adolygwyd cofnod y ddalfa ac rwy'n nodi bod y cynllun gofal yn nodi bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn "cael trafferth" darllen Saesneg ond gall sgwrsio'n llawn, yn deall yr hyn a ofynnir, ac yn ymateb yn unol â hynny. Gofynnodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gyngor cyfreithiol, a chafodd hynny ei drefnu, ac roedd cyfreithiwr yn bresennol yn ystod camau gweithredu'r ddalfa i amddiffyn hawliau'r unigolyn a sicrhau'r broses gyfreithiol gywir. Ni fyddwn yn ystyried bod angen oedolyn priodol ar gyfer y carcharor hwn.</i></p>
<p>Cofnodi manylion demograffig</p>	<p>1) Mae ethnigrwydd ar un cofnod wedi'i gofnodi fel Gwyn Prydeinig, er gwaethaf y ffocws hwn ar unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol. A allwch chi wirio'r cofnod a chanfod a yw hyn yn gywir, ac, os felly, ai gwall yw hwn wrth gofnodi ethnigrwydd gan sarsiant y ddalfa neu gamgymeriad wrth gyflenwi cofnodion ar gyfer CISP?</p> <p>2) Mewn cofnod ar wahân, cofnodwyd bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn Wyn Prydeinig pan oedd mewn gwirionedd yn Fangladeshaid. A oes problem o bosibl o ran cofnodi ethnigrwydd yn</p>	<p><i>1. Adolygwyd cofnod y ddalfa ac mae "ethnigrwydd a ddiffiniwyd gan swyddog" wedi'i gofnodi fel Arabaidd neu unigolyn o Ogledd Affrica. Nid yw hyn yn gamgymeriad wrth gofnodi gan swyddog y ddalfa nac yn gamgymeriad wrth gyflenwi'r cofnod ar gyfer CISP.</i></p> <p><i>2. Mae cofnod y ddalfa wedi'i wirio ac mae'r arsylwad yn gywir. Mae'r ethnigrwydd wedi'i gofnodi fel Gwyn Prydeinig, sy'n anghywir. Bydd adborth yn cael ei roi i swyddog y ddalfa. Mae Gwasanaethau'r Ddalfa eisoes wedi mynd i'r afael â chofnodi ethnigrwydd yn gywir ac mae problem wedi'i nodi ynghylch cofnodi "ethnigrwydd fel y ddiffiniwyd gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa" fel "heb ei nodi", sy'n effeithio ar ffurflenni data. Anfonwyd canllawiau at holl staff y ddalfa bod rhaid gofyn i BOB unigolyn a gedwir yn y ddalfa</i></p>

	anghywir ar systemau cronfa ddata Heddlu Dyfed-Powys?	<i>ateb y cwestiwn hwn yn ystod y weithdrefn cofrestru a chofnodi ei ateb yn unol â hynny.</i>
Yr angen i arestio	Mae CISP wedi sefydlu bod yna ddibyniaeth fawr, i bob golwg, ar yr angen i arestio er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol o dan God G Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. O ystyried bod pedwar cofnod, un ohonynt yn ymwneud â phlentyn a gadwyd yn y ddalfa am gyfanswm o 4 awr a 59 munud a thri unigolyn arall a gafodd eu cadw yn y ddalfa am lai na thair awr, a fydddech chi'n asesu bod eu harestiadau wedi'u hystyried yn angenrheidiol at ddibenion sicrhau camau ymchwilio pendant?	<p><i>Mae pob un o'r pedwar cofnod cadw wedi cael eu hadolygu, ac rwy'n cytuno bod yr holl arestiadau yn angenrheidiol ac yn gymesur a chyda'r angenrheidrwydd Cod G cywir wedi'i ddefnyddio a'i gofnodi. Roedd tri o'r arestiadau hyn am yrru ar gyffuriau ac felly mae'r angen "i gynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol" yn gywir er mwyn cael samplau tystiolaethol yn y ddalfa ar unwaith. Byddwn hefyd yn disgwyl cyfnodau cadw byr ar gyfer y troseddau hyn gan na ellir cwblhau unrhyw gamau pellach ar ôl cael samplau tystiolaethol a chaiff y sawl wedyn sy'n cael ei gadw ei ryddhau o'r ddalfa i ganiatáu i'r samplau gael eu hanfon i'w dadansoddi. Trosedd mewnfudo oedd y cofnod terfynol, ac er y gallech ystyried angenrheidrwydd pellach "atal yr ymchwiliad rhag cael ei rwystro oherwydd bod yr unigolyn yn diflannu", nid yw o reidrwydd yn ofynnol gan mai pwrpas yr arestio yw caniatáu i'r heddlu roi gwybod i Fewnfudo am yr arestiad fel eu bod nhw'n cymryd blaenoriaeth dros yr ymchwiliad.</i></p> <p><i>Rhaid i aelodau'r panel ystyried newidynnau eraill wrth ystyried a yw cadw unigolyn yn y ddalfa yn angenrheidiol heblaw am yr angenrheidrwydd a ddefnyddiwyd a hyd yr amser cadw yn y ddalfa yn unig.</i></p>
Crefydd	<p>O'r chwe chofnod a nodwyd fel rhai nad oeddent yn cael deunyddiau crefyddol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Nid oedd tri chofnod wedi cofnodi ymlyniad crefyddol yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa. 2) Roedd tri chofnod wedi darparu eu hymlyniad crefyddol ond nid 	<ol style="list-style-type: none"> 1. <i>Gwiriwyd tri chofnod y ddalfa, a gallaf gadarnhau nad oedd crefydd wedi'i chofnodi. Mae hyn yn parhau i fod yn broblem cofnodi gan nad yw hwn yn faes gorfodol y mae'n rhaid ei gwblhau ar gofnod y ddalfa ar Niche. Mae'r maes crefydd wedi'i leoli o fewn yr adran "Enw a Gwybodaeth yr Unigolyn a Gedwir yn y Ddalfa" o gofnod y ddalfa sy'n cael ei lenwi ymlaen llaw o gofnod enwol</i>

	<p>oeddent wedi cael eu heitemau crefyddol.</p> <p>A ellir esbonio hyn?</p>	<p><i>Niche yr unigolyn pan grëir cofnod y ddalfa. Nid yw swyddog y ddalfa yn cwblhau'r adran hon.</i></p> <p><i>2. Gwiriwyd tri chofnod y ddalfa, ac roedd y grefydd wedi'i chofnodi fel Cristnogaeth, Uniongred Roegaid a Mwslim. Nid oes cofnod ar gofnodion y ddalfa i nodi bod unrhyw un o'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa wedi cael cynnig eitemau crefyddol gan staff y ddalfa, ond nid oes unrhyw gofnodion yn nodi hefyd bod yr unigolion wedi gofyn am unrhyw eitemau crefyddol chwaith. Mae'n anodd canfod a yw hyn yn esgeulustod gan swyddogion y ddalfa, neu a oedd yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa yn teimlo nad oedd angen unrhyw eitemau crefyddol arnynt yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.</i></p> <p><i>Trafodaethau i'w cynnal gan Wasanaethau'r Ddalfa ynghylch cynnig eitemau crefyddol a chofnodi hyn. Yna bydd hyn yn amlygu a yw eitemau ddim yn cael eu cynnig neu a ydynt yn cael eu cynnig ond nad yw unigolion a gedwir yn y ddalfa yn gofyn amdanynt nac yn eu hangen.</i></p>
<p>Gofynion deietegol</p>	<p>1) Yn achos tri chofnod, ni allai CISP nodi a ofynnwyd am ofynion deietegol arbennig. Cadwyd pob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am fwy na 10 awr. Mewn dau o'r cofnodion hynny, nid oedd bwyd na lluniaeth yn cael eu cynnig yn rheolaidd. A ellir cadarnhau hyn?</p> <p>2) Yn ogystal, mae tri chofnod ychwanegol, ac er gofynnid am ofynion deietegol, ni allai CISP nodi bod bwyd a lluniaeth yn cael eu</p>	<p><i>1. Gwiriwyd cofnodion y ddalfa a gofynnwyd i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa a oedd ganddynt ofynion deietegol arbennig. Gofynnir y cwestiwn hwn i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa gan ei fod wedi'i gynnwys yn Asesiad Risg y Ddalfa – "Oes gennych chi unrhyw anghenion deietegol arbennig?". O dri chofnod y ddalfa a amlygwyd, atebodd un "Nac oes" i'r cwestiwn am anghenion deietegol arbennig a chynigiwyd/darparwyd bwyd a diod iddo ar 11 achlysur; atebodd un arall "Oes", gan nodi "Halal", a gallaf ddod o hyd i dri achlysur pan gynigiwyd/darparwyd bwyd/diod; ac atebodd yr unigolyn olaf "Nac oes" a chynigiwyd</i></p>

	<p>cynnig yn rheolaidd. A ellir gwirio a dilysu hyn?</p>	<p><i>bwyd/diod iddo ar dri achlysur ond roedd hyn yn ddigonol gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa wedi cyrraedd y ddalffa yn oriau mân y bore ac felly cymerwyd y rhan fwyaf o'r cyfnod cadw gan gyfnod o orffwys, sy'n golygu bod bwyd/diod wedi cael eu cynnig i'r unigolyn dair gwaith o fewn pedair awr.</i></p> <p><i>2. Gwiriwyd cofnodion y ddalffa – cynigiwyd bwyd/diod i'r unigolyn dan sylw yn y cofnod cyntaf ar dri achlysur o fewn saith awr, gan wrthod y cynnig ar ddau o'r achlysuron hynny; roedd yr unigolion dan sylw yn yr ail a'r trydydd cofnod wedi'u cadw am lai na dwy awr ac ni ellid darparu bwyd/diod iddynt oherwydd natur y drosedd dan ymchwiliad a'r angen am samplau tystiolaethol.</i></p> <p><i>Nid yw'n glir pam nad yw aelodau'r panel wedi gallu dod o hyd i'r cwestiwn ynghylch "Anghenion deietegol penodol" gan fod hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiwn asesu risg a osodwyd ar gyfer pob carcharor. Er ymwybyddiaeth, nid yn unig y mae cynnig/derbyn bwyd/diod wedi'i gynnwys o fewn cofnodion "Pryd o Fwyd / Diod" ac yn aml maent wedi'u cynnwys o fewn cofnodion "Lles yr Unigolion a Gedwir yn y Ddalffa" pan gynigir bwyd a diod yn ystod ymweliadau â chelloedd. Gellir cwmpasu'r pwnc hwn gydag aelodau'r panel yn ystod y briff yn y panel nesaf.</i></p>
<p>Swyddog benywaidd heb ei neilltuo</p>	<p>Roedd dau gofnod lle na allai CISP nodi a oedd swyddog benywaidd wedi'i neilltuo i fenywod a gadwyd yn y ddalffa.</p>	<p><i>Gwiriwyd dau gofnod y ddalffa:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. Mae'r cofnod cyntaf yn ymwneud â gwryw a gadwyd yn y carchar ac felly nad oedd angen dyrannu swyddog benywaidd.</i> <i>2. Mae'r ail gofnod yn ymwneud â menyw a gadwyd yn y ddalffa ac mae "aelod o staff benywaidd</i>



		<p><i>dynodedig" wedi'i dyrannu yn yr adran berthnasol o'r cynllun gofal.</i></p>
<p>Cynrychiolaeth gyfreithiol</p>	<p>1) Nododd CISP nad oedd gan bedwar cofnod unrhyw fanylion ynghylch a welodd neu a siaradodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa â chyfreithiwr. A ellir ardystio hyn?</p> <p>2) Roedd gan aelod arall o CISP anawsterau wrth sefydlu dilyniant y digwyddiadau mewn perthynas â chynrychiolaeth gyfreithiol ac ni allai nodi pryd y cyrhaeddodd y cyfreithiwr mewn gwirionedd. A fydddech chi'n gallu rhoi rhywfaint o eglurder ar gyfer y cofnod hwn?</p>	<p>1. <i>Gwiriwyd pedwar cofnod y ddalfa:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>Nodir y cofnod cyntaf bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi gofyn am gyngor cyfreithiol a threfnwyd cyfreithiwr. Mae cofnod 12.58pm yn nodi bod y cyfreithiwr i fod i gyrraedd am 12.30pm ond nad yw wedi cyrraedd eto; mae cofnodion pellach am 4.22pm a 5.05pm yn tynnu sylw at y ffaith bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa "gyda'r cyfreithiwr" i ymgynghori ag ef.</i> - <i>Gofynnodd yr unigolyn dan sylw yn yr ail gofnod am gyngor cyfreithiol; trefnwyd cyfreithiwr, ond ni chofnodwyd unrhyw ddiweddariadau pellach ynghylch dyfodiad y cyfreithiwr nag unrhyw ymgynghori ag ef. Caiff adborth ei roi i swyddog y ddalfa.</i> - <i>Mae'r trydydd cofnod, a allai fod wedi bod yn anodd i aelod o'r panel ei adolygu, yn tynnu sylw at y ffaith bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i arestio ar ran Heddlu Manceinion Fwyaf a'i fod wedi'i gasglu gan yr heddlu hwnnw. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweiliad tra oedd Heddlu Dyfed-Powys yn ei gadw yn y ddalfa ac felly ni fyddai'r cyfreithiwr wedi ymweld â'r ddalfa. Fodd bynnag, mae cofnodion yn tynnu sylw at y ffaith y gwnaed ymdrechion i siarad â chyfreithiwr "a enwyd" yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ym Manceinion, ond nid oedd y cwmni hwn wedi'i gofrestru gan ei fod yn ymarfer cyfraith sifil yn hytrach na chyfraith droseddol.</i> - <i>Yn y bedwerydd cofnod, gofynnodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gyngor cyfreithiol; trefnwyd hyn, ac mae cofnod "pontio" am 7.02pm yn dangos bod yr unigolyn wedi'i drosglwyddo i'r</i>

		<p><i>ystafell gyfweld ar gyfer "datgeliad gyda'r cyfreithiwr" ac mae enw'r cyfreithiwr wedi'i gynnwys ar y cofnod hwnnw.</i></p> <p><i>2. Gwiriwyd cofnod y ddalffa ac mae'r cofnod "Lles yr Unigolyn a Gedwir yn y Ddalffa" am 10.14pm yn nodi "Cyrhaeddodd y cyfreithiwr, mae'r unigolyn allan o'r gell a chyda'r cyfreithiwr yn yr ystafell gyfweld", ac mae cofnod pellach am 10.40pm yn nodi "Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalffa allan o'r gell ac yn parhau i fod gyda'r cyfreithiwr".</i></p>
Defnyddio grym	<p>Ni nododd CISP unrhyw gofnod sy'n nodi bod grym wedi ei ddefnyddio yn y ddalffa. A allech chi roi gwybod a yw hyn yn gywir?</p>	<p><i>Mae pob cofnod y ddalffa wedi'i wirio ac mae aelodau'r panel yn gywir; ni ddefnyddiwyd grym yn y ddalffa ar gyfer unrhyw un o'r 19 cofnod.</i></p> <p><i>Roedd 12 o'r 19 cofnod yn cofnodi defnyddio grym yn ystod yr arestiad (gefynnau), ond gan mai cylch gwaith aelodau'r panel yw adolygu natur cadw'r unigolion a gedwir yn y ddalffa, mae eu harsylwad nad oedd grym wedi'i ddefnyddio "yn y ddalffa" yn gywir.</i></p>


Atodiad – Canfyddiadau'r adolygiad o'r cofnodion dalfa

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel, a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalffa, yn cynnwys ffofws ar unigolion a gedwir yn y ddalffa o gefndir ethnig leiafrifol. Adran ategol i'r adroddiad yw hon i roi cyd-destun i'r adrannau Crynodeb o'r canfyddiadau a Sylwadau'r panel uchod.

Demograffeg




Rhywiad




■ Gwryw ■ Benyw


Crefydd



Dalfeydd




Amser cyrraedd y ddalfa



Yr amser a aeth heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa

- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa ac awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa oedd 43 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd 1 awr a 55 munud, ac nid oedd yr aelod panel yn gallu pennu rheswm dros yr oedi.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn yn y ddalfa gael ei gyfnod yn y ddalfa wedi'i awdurdodi oedd o fewn 13 munud.


Amser a awdurdodwyd i'r ddalfa



Cyfanswm y cyfnod yn y ddalfa

- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 16 awr a 36 munud.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 66 awr a 47 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 1 awr a 50 munud.


Beth oedd yr angen am yr arestio?



- Gofynnwyd i'r panel benderfynu a oedd angen yr arestio. Dyma'r rhestr o anghenion o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984:
 - Er mwyn canfod enw neu gyfeiriad person
 - Er mwyn atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill
 - Er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo
 - Er mwyn atal trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus
 - Er mwyn gwarchod plentyn neu unigolyn bregus
 - Os oes rhwystr anghyfreithlon i'r briffordd
 - Er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd
 - Er mwyn atal ymchwiliad i drosedd neu erlyniad yr unigolyn dan amheuaeth rhag cael ei rwystro
- Yr angen amlycaf i arestio a nodwyd oedd *cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd* ac yna *atal niwed*.

Darpariaethau yn y ddalfa


Gofynion crefyddol



■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion


- Yn dilyn adroddiad blaenorol CISP ar ddefnyddio grym, atgoffwyd y panel nad yw crefydd ar hyn o bryd yn rhan o'r cwestiwn asesu risg a osodwyd ers cyflwyno Niche (system cronfa ddata'r heddlu), ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos, sydd y tu allan i gylch gwaith Heddlu Dyfed-Powys. Nid yw'n faes gorfodol y mae angen ei gwblhau ychwaith, sy'n golygu y gellir ei fethu ar adegau. Mae crefydd bellach wedi'i chynnwys yn adran enw a gwybodaeth yr unigolyn ar y cofnod dalffa. Felly, i gywiro hyn, mae aelodau CISP yn ymgynghori â'r arolygydd yn y cyfarfod, sydd â mynediad at gofnod dalffa llawn Niche, i ddilysu a ydyw wedi'i nodi.

Gofynion dietegol arbennig




■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion

A gafodd yr unigolyn yn y ddalffa gyfarwyddyd ynghylch cloch alw'r gell?




■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion

A hysbyswyd yr unigolyn yn y ddalffa am bicseli toiled?



■ Do
 ■ Naddo
 ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion
 ■ Amh

Cynnig Lluniaeth Bwyd



■ Do ■ Naddo ■ Amh

- Mae tri chofnod wedi'u hadolygu lle cadwyd yr unigolyn yn y ddalfa am 7 awr neu fwy.
- Nid yw CISP dal heb ddod o hyd i unrhyw gofnod sy'n manylu ar bicselu toiled na manylion lle mae unigolion yn y ddalfa yn cael cyfarwyddyd ynghylch sut i ddefnyddio cloch y gell yn y cofnodion y mae'n craffu arnynt; fodd bynnag, fe wnaethant nodi enghreifftiau o'r canlynol:
 - 1) Mat gweddi, copi o'r Quran, bwyd Halal a bwyd llysieuol yn cael eu darparu yn ôl y gofyn.
 - 2) Dynodwyd swyddog benywaidd a'i nodi yn y cynllun gofal.
 - 3) Dywedodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa nad oedd yn gallu bwyta porc na chig eidion oherwydd rhesymau crefyddol; fodd bynnag, nid oedd yr aelod CISP yn gallu canfod a oedd unrhyw fwyd na lluniaeth yn cael ei ddarparu.
 - 4) Ymddengys nad oes unrhyw gofnod o ddiodydd yn cael eu cynnig heblaw am un gwydraid o ddŵr wrth gofrestru – ac un pryd o fwyd yn ystod y cyfnod cadw.
 - 5) Mae nifer o achosion lle na chynigiwyd bwyd a lluniaeth i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gan na chafodd ei gadw yn y ddalfa yn ddigon hir.

Unigolion benywaidd yn y ddalffa

A neilltuwyd swyddog benywaidd lle bo angen ar gyfer unigolyn benywaidd yn y ddalffa?



■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion


- Roedd cofnod y ddalffa a gofnodwyd fel un nad oedd yn berthnasol oherwydd na ellid dod o hyd i unrhyw fanylion yn nodi a oedd swyddog benywaidd wedi'i dyrannu ar gyfer y fenyw a gadwyd yn y ddalffa.
- Ni nododd CISP unrhyw bryder ynghylch y gofynion cyffredinol a gynigir i unigolion a gedwir yn y ddalffa.

A wnaeth swyddog benywaidd gyflwyno'i hun i'r unigolyn a gedwir yn y ddalffa?




■ Do ■ Amh ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion

A yw'r swyddog benywaidd a neilltuwyd yr un swyddog drwy gydol arestiad y DP?




■ Oedd ■ Nac oedd ■ Amh

A ofynnwyd i'r unigolyn yn y ddalffa a hoffai siarad â rhywun o'r un rhyw?




■ Do ■ Amh

A gynigiwyd cynhyrchion
mislif?




■ Do ■ Amh

(Menywod yn unig) A yw'r
cofnod yn cyfeirio at unrhyw
geisiadau hylendid sy'n cael
eu gwneud/eu rhoi?



■ Do ■ Naddo


A yw'r cofnod yn cyfeirio at
unrhyw geisiadau hylendid
sy'n cael eu gwneud/eu rhoi?



■ Do ■ Amh


Hawliau a hawlogaethau

A oedd oedi cyn cael hawliau?



■ Do ■ Naddo ■ Amh

A welodd yr unigolyn gyfreithiwr neu a gafodd gyfle i siarad ag un tra bu yn y ddalffa?



■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd i fanylion ■ Amh

- Rhoddwyd hawliau i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalffa naill ai yn ystod y cyfnod cofnodi neu'n ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalffa.
- Y sail resymegol a gofnodwyd dros yr oedi o ran unrhyw hawliau a hawlogaethau oedd cais am gyfieithydd ar y pryd, y mae'n cael ei gaffael o'r tu allan i ardal yr heddlu ac y mae'n rhaid iddo deithio oddi yno.


Pa mor hir, ar ôl awdurdodi'r cyfnod yn y ddalffa, y gwnaeth yr unigolyn yn y ddalffa gais am gyfreithiwr?

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i unigolyn a gadwyd yn y ddalffa ofyn am gyfreithiwr oedd 43 munud.
- Mewn tri chofnod yn unig o'r 19 cofnod, gwrthododd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa yr opsiwn i ofyn am gyfreithiwr.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn a gadwyd yn y ddalffa ofyn am gyfreithiwr oedd 4 awr a 30 munud.
- Mewn cyferbyniad, y cyfnod byrraf oedd yn syth ar ôl awdurdodi cyfnod unigolyn yn y ddalffa.

Yr amser a gymerwyd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 3 awr a 46 munud.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd 15 awr a 38 munud.
- Y cyfnod byrraf oedd 15 munud.

Os bu oedi hir cyn gweld cyfreithiwr, a oedd unrhyw sail resymegol ar gael?




- Do Rhesymeg wedi rhoi
- Naddo, Dim rhesymeg wedi rhoi
- Amh

Yr amser a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd o adeg cysylltu ag ef

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd 7 awr a 26 munud. Cynhaliwyd yr holl ryngweithio â'r cyfreithiwr dros y ffôn.
- Nododd CISP y sylwadau canlynol mewn perthynas â chynrychiolaeth gyfreithiol:
 - 1) Gwnaeth gynrychiolaeth gyfreithiol roi gwybod i dîm y ddalfa eu bod wedi dewis peidio â bod yn bresennol yn ystod y broses a dim ond cael yr wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd cadw yn y dyfodol yr oeddent am ei gael.
 - 2) Problemau gyda chydlynu cynrychiolaeth gyfreithiol ochr yn ochr â gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd.

Beth oedd y dull gwarediad/datrysiad?



- Gofynnwyd i'r panel nodi'r dull datrysiad i asesu a gafodd unigolion a gadwyd yn y ddalffa o leiafrifoedd ethnig eu cadw yn gymesur â'r angen i'w harestio.
- Y dull datrysiad amlaf oedd mechnïaeth amodol, sef y broses sy'n caniatáu i swyddogion ychwanegu amodau i fechnïaeth, a all gynorthwyo dioddefwyr a/neu dystion, diogelu tystiolaeth, a llesteirio troseddau pellach rhag cael eu cyflawni.
- Mae dau gategori ychwanegol, sef adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, pan fo'r unigolyn a gedwir yn y ddalffa yn cael ei gadw mewn ward ysbyty am 28 diwrnod i gael ei asesu ac o bosibl i geisio triniaeth. Y datrysiad ychwanegol arall oedd rhyddhau'r unigolyn a gadwyd i'r gwasanaethau mewnfudo.


Lefel arsylwi



- Pennwyd lefel arsylwi ar gyfer pob cofnod dalfa a adolygwyd.
- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
 - Lefel 1 – cyffredinol (o leiaf unwaith bob awr)
 - Lefel 2 – ysbeidiol (bob 30 munud)
 - Lefel 3 – cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
 - Lefel 4 – yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos)
- Nododd CISP fod lefelau arsylwi wedi'u dilyn a'u bod wedi'u huwchraddio a'u hisraddio'n briodol.

Gwasanaethau cymorth


A gafodd yr unigryw fynediad/cynnig/cyfeirio at unrhyw wasanaethau cymorth tra bu yn y ddalffa?



- Nododd CISP:
 - 1) Cyfeiriodd ymarferydd gofal iechyd at wasanaethau a throsglwyddwyd hyn i'r gwasanaethau mewnfudo hefyd.
 - 2) Cynigiwyd cymorth i'r gwasanaeth cyffuriau ac alcohol.
 - 3) Cysylltwyd â'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch plentyn yn y ddalffa.
 - 4) Anfonwyd menyw a gadwyd yn y ddalffa i'r adran damweiniau ac achosion brys am asesiad iechyd meddwl.
- Roedd pum achos lle gwrthododd yr unigolion a gadwyd yn y ddalffa y cynnig o wasanaethau cymorth.
- Pwysleisiodd CISP mai'r prif wasanaeth a gynigiwyd i unigolion a gedwir yn y ddalffa oedd gwasanaeth iechyd meddwl, ac yna gwasanaethau cymdeithasol a chymorth camddefnyddio sylweddau ar gyfer unigolion caeth.

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

A welodd yr unigolyn weithiwr gofal iechyd proffesiynol tra bu yn y ddalffa?



■ Do ■ Naddo

- Cadarnhaodd CISP fod pob unigolyn a gadwyd yn y ddalffa yr oedd angen iddynt weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi gweld un heb oedi.
- Gwnaeth CISP y sylwadau canlynol mewn perthynas â darparu gweithiwr gofal iechyd proffesiynol:
 - 1) Mae'r strwythur holi yn dynodi arfer da a gofalgar.
 - 2) Roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa wedi datgan ei fod yn teimlo'n bryderus ynghylch ei gadw yn y ddalffa, ond mae'r cofnod yn nodi nad oedd angen ymarferydd gofal iechyd.
 - 3) Ni wnaeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa ymgysylltu'n llawn â'r cwestiynau ar yr asesiad risg.
 - 4) Mynegodd ymarferydd gofal iechyd ei bryder bod unigolyn a gadwyd yn y ddalffa yn gwrthod bwyd a diod yn ystod ei amser yn y ddalffa.

Dillad risg arbennig / ystafelloedd gwrth-rwygo


- Nid oedd unrhyw achosion o unrhyw garcharor yn gwisgo dillad risg arbennig. Mae hyn oherwydd bod Heddlu Dyfed-Powys wedi penderfynu cael gwared ar ddillad risg arbennig ym mis Mai 2025.

Defnyddio grym

- Nid oedd unrhyw achosion pan ddefnyddiwyd grym ar yr 19 cofnod dalfa a welwyd ar garcharorion o leiafrifoedd ethnig.

Noeth-chwiliad

Os na, a ystyriwyd bod y noeth-chwiliad yn un brys?




■ Oedd ■ Nac Oedd

- Roedd pedwar achos lle cafodd unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei noeth-chwilio yn yr 19 cofnod dalfa a welwyd gan CISP.
- Ni nododd CISP unrhyw bryderon mewn perthynas â chyfiawnhad na chymhwyso'r noeth-chwiliad.

Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd

A nododd yr heddlu fod angen oedolyn priodol?




A oedd unrhyw reswm pam na ddarparwyd oedolyn priodol?



- Yr amser cyfartalog i'r heddlu wneud y cyswllt cyntaf â'r oedolyn priodol a gofnodwyd oedd 3 awr ac 19 munud. Y cyfiawnhad dros yr oedolyn priodol oedd oherwydd bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn blentyn. Cyfanswm ei gyfnod yn y ddalfa oedd 4 awr a 59 munud.
- Yr amser cyfartalog cyn y cyswllt cyntaf rhwng yr unigolyn yn y ddalfa a'r oedolyn priodol oedd 4 awr ac 1 munud.
- Nododd y panel y rhesymau canlynol, heblaw am fod yn blentyn, pam roedd gan yr unigolion yn y ddalfa hyn fregusrwydd ychwanegol:
 - Pryder ynghylch eu cadw yn y ddalfa
 - Dau achos o rwystr iaith
 - Methu darllen yn Saesneg
 - Dibyniaeth ar sylweddau
 - Dau achos o broblemau iechyd meddwl wedi'u hadrodd amdanynt, gan gynnwys anhwylder deubegynol ac iselder
 - Achosion blaenorol o hunan-niweidio

Plant yn y ddalfa

A ddefnyddiwyd rhestr wirio plant yn y ddalfa?




- O'r unig gofnod a adolygwyd, sefydlwyd y canlynol:
 - 1) Roedd wedi cael ei adolygiad gan arolygydd o fewn un i ddwy awr ar ôl iddo gyrraedd y ddalfa.
 - 2) Roedd yr arestiad wedi cael ei adolygu gan ringyll gweithredol (nid y ddalfa).
 - 3) Cafodd ei ryddhau cyn ei adolygiad chwe awr o dan Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.
 - 4) Ni chafodd ei gyhuddo a chafodd lety amgen drwy'r gwasanaethau cymdeithasol.
 - 5) Roedd y rhestr wirio wedi'i chwblhau ochr yn ochr â Llais y Plentyn ac Eiliadau Cyraeddadwy.

Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod dalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu sgoriau cyffredinol o'r cofnod dalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

Enghreifftiau o resymau dros y sgoriau	Camau dilynol
<p>Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad, neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cynorthwyo unigolion yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur.</p> <p>Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r unigolyn yn y ddalfa.</p> <p>Defnyddiwyd dulliau dad-waethygu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn yn y ddalfa rhag hunan-niweidio bwriadol.</p>	Dim camau pellach ar hyn o bryd
<p>Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.</p> <p>Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa gael ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.</p> <p>Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.</p>	Cyngor / hyfforddiant pellach i staff y ddalfa
<p>Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw'r cyfiawnhad yn gymesur.</p> <p>Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg, a heb unrhyw resymeg arall.</p> <p>Oedi sylweddol wrth i'r unigolion yn y ddalfa weld ymarferydd gofal iechyd, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol, neu gael oedolyn priodol yn bresennol.</p> <p>Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd yr unigolyn yn y ddalfa.</p>	Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â'r diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.

Coch Melyn Gwyrdd



Y rhesymeg a bennwyd i bob gradd lliw oedd asesiad/barn aelodau unigol y panel o'r cofnod dalffa yr aseiniwyd iddynt. Isod mae peth o'r sail resymegol a ddarparwyd gan CISP ar gyfer ei sgoriau:

<i>"Achos da. Cymerwyd camau i leihau'r trawma a achosir i'r plentyn a'i drosglwyddo i drydydd parti (Gwasanaethau Cymdeithasol)."</i>	<i>"Nid oedd y broses drosglwyddo bob amser yn nodi darpariaeth swyddog benywaidd."</i>
<i>"Ymddengys fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalffa wedi cael ei drin yn briodol, ac mae cofnodion yn adlewyrchu hyn."</i>	<i>"Gormod o anghysondebau. Methu dod o hyd i gyngor am gloch y cell, toiled wedi'i guddio gan lun picsele. Methu canfod a ddarparwyd bwyd ac, eto, oherwydd gorbryder, dim sôn pellach am ymarferydd gofal iechyd, dim ond cofnodi nad oedd ei angen."</i>
<i>"Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u darparu i'r unigolyn a gedwir yn y ddalffa. Dim problemau wedi'u nodi."</i>	<i>"Ethnigrwydd wedi'i gofnodi fel Gwyn Gogledd Ewropeaidd a chenedligrwydd fel Gwyn Prydeinig – fodd bynnag, mae'r cofnod wedyn yn dangos bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa yn Fangleddhaidd."</i>
<i>"Oherwydd ymddygiad ymosodol yr unigolyn a gedwir yn y ddalffa a swyddogion yn ceisio ymgysylltu. Yn aml, cawsant eu hateb naill ai gydag ymateb anghyson neu gam-drin geiriol. Roedd yr adroddiad yn anodd ei ddarllen gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa wedi cael ei gludo i'r ysbyty am adolygiad"</i>	<i>"Ddim yn gallu sefydlu dilyniant y digwyddiadau mewn perthynas â'r cyfreithiwr."</i>

iechyd meddwl wrth iddo fynd yn ôl ac ymlaen. Gwrthododd yr adran damweiniau ac achosion brys gwblhau'r asesiad. Rwy'n credu bod swyddogion y ddalfa wedi delio â'r sefyllfa hyd eithaf eu gallu ac na ellid cymryd unrhyw gamau pellach."